# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 16 MAWRTH 2021 am 2.00 o'r gloch yp | | TUESDAY, 16 MARCH 2021 at 2.00 pm |
| CYFARFOD RHITHWIR (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD) | | VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND) |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), R G Parry OBE, Dylan Rees, Nicola Roberts

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Richard Griffiths, Dafydd Roberts

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

J Arwel Roberts

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Eric Jones, R Llewelyn Jones (Cadeirydd/Chair)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020.

3 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2021/22** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

4 **DATBLYGU AELODAU** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddi - Adnoddau Dynol.

# PWYLLGOR GWASANAETNHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 23 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Dylan Rees, Dafydd Roberts

**WRTH LAW:** Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd J Arwel Roberts

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

Cyfeiriwyd at Eitem 3 o'r cofnodion, a mynegwyd pryder nad oedd rhai Cynghorau Tref a Chymuned wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad y Comisiwn Ffiniau ar drefniadau etholiadol.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gan ddweud mai ychydig iawn o Gynghorau Tref a Chymuned oedd wedi cyflwyno sylwadau ar y cynigion a gyfeiriwyd atynt yn adroddiad terfynol y Comisiwn.

### 3. ADOLYGIAD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Gorffennaf a 25 Medi 2020, fel rhan o adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cymru.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod y Comisiwn wedi cyhoeddi ei gynigion drafft ar gyfer ymgynghori arnynt ar 16 Mehefin 2020, a oedd yn gyson ag argymhellion y Cyngor Sir ar 7 Hydref, 2020, ar gyfer model seiliedig ar 14 ward a 35 Aelod.

Nodwyd y cafodd argymhellion y Pwyllgor hwn, a oedd yn cynnwys newid enw'r ward Braint newydd i Bodowyr, wedi eu derbyn gan y Cyngor Sir ar 8 Medi 2020 ac wedi

eu mabwysiadu gan y Comisiwn. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 8 Rhagfyr 2020 ar gyfer eu cymeradwyo. Gobeithir cyflwyno'r newidiadau mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau, ac**
- **Argymell bod y Cyngor Sir yn derbyn argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau ar 8 Rhagfyr 2020.**

**4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2021/22**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA), sy'n gosod y lwfansau sy'n daladwy i Aelodau ac aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod Adroddiad Blynyddol Drafft y PACGA ar gyfer 2021/22 wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad tan 23 Tachwedd 2020. Bydd y Panel yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2021.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd grynodeb o'r newidiadau arfaethedig canlynol:-

- Cynyddu'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig £150 i £14,368;
- Cynyddu'r uwch gyflogau 1.06%, yr un raddfa â'r cyflog sylfaenol;
- Cynyddu cyflogau'r penaethiaid dinesig a'u dirprwyon - Cadeiryddion Pwyllgorau i dderbyn £23,161 (Band 3), ac Is-gadeiryddion i dderbyn £18,108 (Band 5);
- Cynyddu'r taliadau i aelodau cyfetholedig £12 y dydd;
- Bod costau gofal ffurfiol (a gofrestrir ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn cael eu had-dalu'n llawn;
- Bod costau gofal anffurfiol (heb eu cofrestru) yn cael eu had-dalu i uchafswm cyfwerth â'r Cyflog Bwy Gwirioneddol, ar yr adeg yr achosir y costau.

Nodwyd y bydd y newidiadau uchod yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

**PENDERFYNWYD derbyn penderfyniadau drafft adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22.**

**5. NEWIDIADAU I ABSENOLDEBAU MABWYSIADU AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ddogfen Ymgynghori er mwyn ehangu'r amodau absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y bydd y cap ar daliadau yn cael ei ddisodli gan gostau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod telerau cyflogaeth Aelodau Etholedig yn fwy ffafriol ac y bydd absenoldebau yn dod i fod yn unol â rhai staff, sy'n caniatáu 26 wythnos o absenoldeb.

Croesawodd y Cadeirydd y cynnig gan obeithio y byddai mwy o ddiddordeb yn cael ei greu ymysg unigolion fengach a merched yn enwedig mewn bod yn Aelodau o'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn y newidiadau arfaethedig a amlinellwyd yn nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ac awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ymateb yn ôl yr angen mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am

**CYNGHORYDD ROBERT LL JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **16 Mawrth 2021** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adroddiad ar benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2021/22** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Fe gyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2020. Oherwydd yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ac yn parhau i'w chael ar holl awdurdodau lleol Cymru, roedd y cynigion yn yr Adroddiad Blynyddol drafft yn cyfyngu ar y newidiadau fyddai'n cael eu gwneud i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol yn 2021/22.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 25 Chwefror 2021. Mae'r Panel wedi cadarnhau'r cynnydd yng nghyflogau aelodau etholedig prif gynghorau, gyda chynnydd canlyniadol i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r Adroddiad drafft. Rhoddwyd cadarnhad hefyd nad oes unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol cynghorau tref a chymuned. Fodd bynnag, bydd y Panel yn cynnal adolygiad o'r fframwaith cydnabyddiaeth cyfredol ar gyfer y sector hwn a chaiff unrhyw newidiadau eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol drafft nesaf.

Bydd y penderfyniadau'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac amlinellir isod y prif newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn:


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Cyflog Sylfaenol

Bydd y cyflog sylfaenol yn 2021/22 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yn **£14,368** – cynnydd o £150, a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021 oni fydd unrhyw aelod unigol yn dewis yn bersonol ac yn ysgrifenedig i dderbyn swm is.

## 3.0 Uwch Gyflogau

### 3.1 Nifer yr uwch gyflogau

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy’n daladwy ("y cap") yn dal i sefyll, hy cyfanswm o 16 i Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

### 3.2 Y Bandiau Uwch gyflogau

Yn 2021, bydd uwch gyflogau (taliadau i aelodau’r Pwyllgor Gwaith, cadeiryddion pwyllgorau ac arweinydd yr wrthblaid) yn cynyddu ar yr un gyfradd (1.06%) â chyflogau sylfaenol:

| Uwch Gyflogau 2021/22 (sy’n cynnwys y cyflog sylfaenol) a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021: | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£44,921**<br>**£31,783** |
| **Band 2** | Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith | **£27,741** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y’u telir) | **£23,161** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf | **£23,161** |
| **Band 5** | Arweinwyr grŵpiau gwleidyddol arall | **£18,108** |

### 3.3 Cyflogau Dinesig

O 1 Ebrill 2021, mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid talu:

**£23,161** (Band 3) i bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu) a
**£18,108** (Band 5) i ddirprwy bennaeth dinesig (os yw'n cael ei d/thalu).

Mae’r swyddi hyn yn cael eu cynnwys yn y cap.

## 4.0 Taliadau i Aelodau Cyf-etholedig

Mae’r Panel yn cynnig cynnydd o £12 yng nghyfradd dyddiol aelodau cyfetholedig arferol ac i’r rhai sydd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'r penderfyniadau wedi'u nodi isod, a rhaid i’r Cyngor:

- ddweud wrth aelodau cyfetholedig beth yw enw'r swyddog penodol a fydd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt ar gyfer eu hawliadau; a

- rhoi gwybod i'r swyddog hwnnw am yr ystod o daliadau y dylid eu gwneud.

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £268<br>(4 awr a mwy)<br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £238 o ffi ddyddiol<br>(4 awr a mwy)<br>£119 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorau tref a chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau safonau prif gynghorau | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |

## 5.0 Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol

Mae'r Panel wedi adolygu trefniadau'r cymorth ariannol hwn ac mae'n cynnig y newidiadau canlynol:

a) Gan fod taliadau'n drethadwy o dan reolau presennol CThEM, nid yw ad-daliad llawn yn bosibl felly i fod yn glir bydd yn cael teitl newydd sef "Cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol". Bydd angen derbynebau gyda hawliadau o hyd.

b) Gellir gwneud hawliad mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 mlwydd oed neu berson ifanc dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth.

c) Eglurhad ynghylch anghenion gofal neu gymorth yr aelod ei hun: Gellir hawlio ad-daliad pan nad yw'r cymorth a/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael gan yr awdurdod, neu pan nad yw'r awdurdod yn talu'n uniongyrchol amdanynt, megis Mynediad i Waith, Taliadau Personol, Yswiriant. Gallai'r rhain ddod i'r amlwg pan fo'r anghenion yn rhai diweddar a/neu dros dro.

Mae'r Panel wedi adolygu'r taliad misol uchaf gan gydnabod nad yw wedi newid ers sawl blwyddyn. Mae gwybodaeth yn dynodi bod costau misol a hawliadau yn amrywio'n sylweddol. Gall y rhain ddibynnu ar nifer y dibynyddion, eu hoedrannau a ffactorau eraill. Felly, bydd y trefniadau canlynol yn disodli'r cap misol:

- Ad-dalu costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) yn llawn.

- Ad-dalu costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

I fod yn glir, ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod.

## 6.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22 (Chwefror 2021).

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**9/3/21**

Papur Cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, 2021/22 (Chwefror 2021):
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/Panel%20Annibynnol%20Cymru%20ar%20Gydnabyddiaeth%20Ariannol%20-%20Adroddiad%20Blynyddol.pdf


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD:** | **16 MAWRTH 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DATBLYGU AELODAU** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **RHEOLWR HYFFORDDI – ADNODDAU DYNOL** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | **MIRIAM WILLIAMS** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD GYDA'R RHAGLEN HYFFORDDI A DATBLYGU AR GYFER AELODAU** |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Democrataidd ar y cynnydd o ran y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd ac a gynllunir i Aelodau Etholedig.

## 2. Y CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau sydd ynghlwm (atodiad 1) yw'r cynllun ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2019/2020, ond mae'r pandemig presennol yn amlwg wedi cael effaith ar yr hyfforddiant a ddarparwyd ac felly mae rhai digwyddiadau eto i'w trefnu. Er mwyn amlygu'r digwyddiadau oedd wedi ei cwblhau, ma'r awdur wedi gosod statws RAG er mwyn ei gwneud yn haws i adnabod y rhai efallai fydd angen ei cario drosodd i'r cynllun 2021/22.

Ychydig iawn o weithgaredd a fu o ran hyfforddiant a gynigiwyd i Aelodau Etholedig yn ystod chwarter olaf 2019/2020, oherwydd y pandemig.

Y bwriad yw i sefydlu a chasglu anghenion hyfforddi er mwyn llunio Cynllun Datblygu diwygiedig o'r cyfnod presennol i fyny i gyfnod etholiadau yn 2022 a'i chyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

## 3. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (ADP) I AELODAU

Mae trefniadau mewn perthynas â chwblhau'r ADP ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wedi cymeryd lle gyda'r gweithgaredd yma yn cael ei gydlynu gan y

Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd ac fe fydd rhain yn cael ei cynnwys o fewn y cynllun.

## 4. DARPARU HYFFORDDIANT

Ar nodyn cyffredinol, oherwydd gofynion pellter cymdeithasol, nid yw'r dulliau traddodiadol o gyflwyno hyfforddiant wedi bod yn opsiwn dros yr ychydig fisoedd diwethaf, a gohiriwyd yr holl gyrsiau hyfforddi a oedd wedi'u trefnu a'u harchebu. Bydd adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau yn cael ei gwneud.

Cysylltwyd â nifer o ddarparwyr hyfforddiant i sefydlu a allant gynnig dulliau amgen o ddarparu hyfforddiant trwy lwyfannau megis MS Teams / Zoom e.e. gweminarau. Gall hwn fod yn opsiwn i'w ystyried ar gyfer darparu hyfforddiant i Aelodau Etholedig yn y dyfodol. Mae'r opsiynau o fewn y gweminarau hyn yn caniatáu hyblygrwydd i fynychwyr gyfrannu / gwneud gwaith grŵp ac ati. Gallai'r opsiwn hwn hefyd leihau costau hyfforddi.

Yn ystod y cyfnod clo, mae rhywfaint o hyfforddiant / arweiniad ar ddefnyddio MS Teams wedi bod ar gael gan Swyddogion TGCh ar gyfer Aelodau Etholedig er mwyn hwyluso gallu'r Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio hefyd wedi mynychu gweminarau gyda CIPFA.

Mae modiwlau E-Ddysgu, y gellir eu cyrchu trwy blatfform Cronfa Ddysgu'r Awdurdod, yn parhau i fod ar gael, gyda mwy o wybodaeth yn cael ei hychwanegu bob wythnos. Mae’r Tîm Dysgu a Datblygu yn datblygu adran ar blatfform E-Ddysgu’r Awdurdod er mwyn sicrhau mynediad hawdd i gyfathrebiadau ynglyn â digwyddiadau hyfforddiant/gwybodaeth iechyd a lles. Bwriedir lansio’r adaran yma erbyn cychwyn yr Haf.

Yn ôl yr arfer, mae cefnogaeth ar gyfer sgiliau TG ar gael fesul 1-1/sail grwp, pe byddai angen hyn.

## 5. CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

Cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddog Polisi a Gwella CLlLC i sefydlu pa adnoddau a allai fod ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Y gobaith yw y bydd arweiniad a gwybodaeth mewn perthynas â darparu hyfforddiant yn y dyfodol yn cael eu rhannu ar draws yr holl Awdurdodau.

Mae'r gwaith ar y modiwlau E-Ddysgu ar gyfer Aelodau Etholedig yn parhau.

## 6. CYFATHREBIADAU

Er mwyn gwella cyfathrebiadau ynghylch digwyddiadau/gwybodaeth hyfforddiant, mae’r Tîm Dysgu a Datblygu wedi am y tro cyntaf wedi symbylu

Bwletin ar gyfer Aelodau Etholedig. Dosbarthwyd y rhifyn cyntaf yn ystod Chwefror 2021 (gweler atodiad 2). Yn ddibynol ar yr atborth, y bwriad ydi i ddosbarthu Bwletin yn chwarterol.

## 7. ARGYMHELLION

- Gofynir am farn y Pwyllgor ar y cynllun drafft
- Yn ddibynnol ar farn y Pwyllgor ar y Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2021/2022 y bwriad i gyflwyno i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth maes o law.

**MIRIAM WILLIAMS**
**RHEOLWR HYFFORDDI ADNODDAU DYNOL**
**MAWRTH 2021**

This page is intentionally left blank

| **RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG**<br><br>**(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau.  Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Bason | **Tachwedd 2019** |
| Materion Diogelu 'Mop up' | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **14eg Tachwedd 2019** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **Cyflwyniad gan Dafydd Bulman a Rachel Williams.**<br><br>**Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol.  Dysgu electronig. | **Dyddiad: i'w benderfynu** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| “Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)”. | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **25ain Chwefror 2019**<br><br>**16eg Hydref 2019 (‘mop up’)** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **28ain Mawrth 2019**<br><br>**‘Mop up’ 2019/2020** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | E-ddysgu | **Parhaus** |
| Dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol – hyfforddiant gweithredu am ddim | Pob Aelod Etholedig | Natalie Brimble<br><br>TrosGynnal Plant<br><br>North Wales Advocacy | **5ed Mawrth 2020** |
| CLILC – Rhaglen Arweinyddiaeth | Aelodau Etholedig Enwebedig | Gweithdai Rhanbarthol | **Medi – Tachwedd 2019** |
| Trwyddedu - Diweddariad | Aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad: Tachwedd 2019** |
| Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **Dyddiad: I’w benderfynu** |
| Cynllunio<br><br>• Materion Llifogydd | | Swyddogion Mewnol | **16eg Hydref 2019** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | | |
| Delio â Materion Heriol | Pob Aelod Etholedig | David Jones - ACAS | **26ain Medi 2019** |
| Gweithredu'r Cyfansoddiad | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Arweinyddiaeth Gymunedol a Nodi Grantiau | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cadeirio Cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig | Ar gael ar y porth Learning@Wales | **Parhaus** |
| Camdriniaeth yn y Cartref | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu**<br><br>**Mawrth / Ebrill 2020** |

**SGILLIAU TGCH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnyddio iPads | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | Parhaus |
| Sgiliau Cyffredinol TG | Pob Aelod Etholedig – Fel angen | Mewnol | Parhaus |

Atodiad 1

**MODIWLAU E-DDYSGU**

**Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.**

| Datblygiad Aelodau | Yr Iaith Gymraeg | Iechyd a Diogelwch |
|---|---|---|
| - Moesau a Safonau (i)<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i)<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i)<br>- Cadeirio Cyfarfodydd (i)<br>- Rhiantu Corfforaethol (i)<br>- Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i)<br>- Cyflwyniad I Graffu (i) | - Croeso Cymraeg Gwaith (i)<br>- Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i)<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch (i)<br>- Glendid Bwyd (i) |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **(M)**<br>- Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i)<br>- Gwybodaeth Iechyd (i)<br>- Ymwybyddiaeth Straen (i)<br>- Cadernid Personol (i)<br>- Atal (i) **(M)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i)<br>- Cynllunio Cyn Ymddeol (i) | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) **(M)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol (i)<br>- Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i)<br>- Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i)<br>- Rhoi a Derbyn Adborth (i)<br>- Sgiliau Cyfarfod (i)<br>- Sgiliau Cyflwyno (i)<br>- Deallusrwydd Emosiynol (i)<br>- Hunan Ddatblygiad (i)<br>- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) | - Ymwybyddiaeth Seibr **(M)** |

| | | |
|---|---|---|
| - Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i)<br>- Caethwasiaeth Fodern (i) **(M)** | | |

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

## MEYSYDD DATBLYGU I'W YSTYRIED 2020/2022

### 1. BLAENORIAETHAU CYFFREDINOL SYDD WEDI EI ADNABOD GAN CLILC :

- Gwaith Cymunedol *
- Gwneud penderfyniadau hanfodol
- Diweddaru Aelodau ar gynlluniau/gweithredoedd y Cyngor fel ei bod yn gallu hysbysu a mesur anghenion y gymuned;
- Penderfyniadau ynglyn a materion COVID;
- Pwysau ariannol a gosod cyllidebau yng ngolau llymder;
- Brexit;
- Cadeirio a chymeryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol;
- Defnydd TG
- Ailymweld a Sgriwtini mewn argyfwng '
- Gwydnwch personol
- Cyfleoedd ar gyfer Aelodau o'r Cabinet

**Awgrymiadau ar gyfer y 18 mis nesaf:**

**Ffocws ar barhau gyda sesiynau briffio yn hytrach na hyfforddiant grwpiau gyda mynediad i wybodaeth/unigolion perthnasol gydag esiamplau o ymarferion da fydd yn eich galluogi I allu bod yn arloesol ac ymateb yn sydyn I sefyllfaoedd newidiol.- yn benodol o amgylch Cynllunio/Tai/Gofal Cymdeithasol ac Addysg.**

**2. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

- **Ystyried:** Marchnata positif/addas gan fod y rhain wedi eu plethu i bob agwedd o waith Aelod gan gynnwys Diogelu Data, Diogelu, Disgyblaeth y Côd Ymddygiad, Cyfrinachedd Masnachol ac yn y blaen. Mae'n debyg fod aelodau'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda'r Aelodau Etholedig ar y cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd ac mae angen i Aelodau Etholedig fod yn gyfarwydd â'u goblygiadau drwy ddefnyddio Facebook, Twitter ac yn y blaen.

** Sesiwn blaenorol wedi ei gynnal 2018, gyda 11 wedi mynychu – erbyn hyn a'r sefyllfa sydd ohonni, efallai ein bod yn gneud mwy o ddefnydd o'r maes yma ac angen mwy o gefnogaeth?

**3. CYLLID**

- Rheoli'r Trysorlys – Diweddariad Blynyddol
- Twyll
- Rheoli Risg
- Materion Archwilio – pecyn EDdysgu



**4. SGRIWTINI**

- Siarad Cyhoeddus mewn Cyfarfodydd Rhithiol o'r Pwyllgorau Sgriwtini – Protocolau
- Defnydd Effeithiol o Sgriwtini

**5. MATERION CYNLLUNIO:**

- Ymwybyddiaeth Cynllun Datblygu Lleol a'r adroddiad Monitro a.y.y.b
- Mae swydd wag ar y pwyllgor cynllunio a bydd angen hyfforddiant penodol i'r Aelod newydd ar faterion cynllunio.
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth ar ganfyddiadau'r AMB

**6. LLESIANT AELODAU A GWEITHIO O BELL:**

- Defnydd o adnoddau sydd ar gael ar platform Cronfa Dysgu CSYM

**7. SGILIAU DIGIDOL**

- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Seibr


Atodiad 1

This page is intentionally left blank

# Datblygu Aelodau Môn

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

*CHWEFROR 2021*



## Neges gan y Rheolwr Hyfforddiant


Mae'r 12 mis diwethaf wedi golygu newidiadau mawr i ni gyd ac o ganlyniad mae'r sgyrsiau ar hap yr oeddem ni gyd wedi arfer â nhw wrth weithio ym Mhencadlys y Cyngor bellach wedi diflannu. Mae technoleg i weld wedi cymryd drosodd ein bywydau ac mae'n ymddangos bod mwy ohonom yn cyfarfod yn rhithiol nac erioed o'r blaen, boed hynny am resymau gwaith neu er mwyn siarad â'n ffrindiau neu'n teuluoedd. Nid yw hyn heb ei heriau a does dim yn well na chyfathrebu wyneb yn wyneb.

Fel Tîm Dysgu a Datblygu rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn estyn allan at gynifer o bobl a phosibl gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau er mwyn tynnu sylw at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael boed hynny drwy sesiynau hyfforddiant rhithiol/cyfleoedd E-ddysgu neu drwy wybodaeth gyffredinol megis mentrau Iechyd a Llesiant.

Gan ystyried hyn rydym wedi datblygu'r bwletin hwn er mwyn eich cefnogi chi fel Aelodau Etholedig a bydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol am hyfforddiant. Rydym yn bwriadu cylchredeg bwletin bob chwarter a gobeithiwn y bydd yn adnodd gwerthfawr i chi. Rydym yn croesawu unrhyw adborth yr hoffech ei roi.

## Modiwlau Mandadol

Ar hyn o bryd, mae 5 modiwl gorfodol ar Learning Pool y mae angen i staff ac Aelodau Etholedig eu cwblhau. Gofynnwn i chi geisio cwblhau pob un erbyn y dyddiad a nodir isod.



- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 28/02/2021
- Caethwasiaeth Fodern - 31/03/2021
- Atal - 30/04/2021
- Ymwybyddiaeth Seibr - 31/05/2021
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol - 30/06/2021


## Iechyd a Llesiant

Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ym Mawrth 2020, lansiodd y Tîm Dysgu a Datblygu'r dudalen Llesiant Gweithio o Adref ar Learning Pool.

Mae hwn wedi profi'n adnodd hynod werthfawr ac mae 1,143 aelod o staff wedi'i ddefnyddio ers i ni ddechrau'r dudalen.

Mae'r categori Iechyd a Llesiant ar y safle bellach wedi'i ail lansio ac mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau megis Teclyn Delio ag Arian, Dosbarth Metafit Ar-lein, Calendr Llesiant Personol, Cymorth i Weithwyr Cymdeithasol a llawer mwy. Bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn barhaus.

## Cronfa Dysgu



Lansiwyd y Gronfa Dysgu 'Learning Pool' fel y platfform e-ddysgu newydd ym mis Hydref 2019.

Wrth i'r gwaith o ddatblygu'r adnodd barhau rydym yn annog Aelodau Etholedig i hefyd ddefnyddio'r system fel rhan o'u datblygiad.

Mae mynediad i Learning Pool yn hyblyg ac mae ar gael unrhyw dro, gan ddefnyddio'r isod wrth gael mynediad am y tro cyntaf:

http://ynysmon.learningpool.com
Enw Defnyddiwr: Eich rhif cyflog
Cyfrinair: Croeso1%

Os ydych yn cael unrhyw broblemau, cysylltwch â: Hyfforddiant@ynysmon.gov.uk

## Modern Gov

Hoffem atgoffa Aelodau i ddiweddaru eu cofnodion datblygiad personol yn rheolaidd ar y safle Modern.Gov.

Mae canllawiau i'w gweld yma neu am fwy o gymorth ac arweiniad cysylltwch â Carys Bullock - CarysBullock@ynysmon.gov.uk neu Ffion Thomas - FfionThomas@ynysmon.gov.uk

## Cysylltiadau Defnyddiol

Gweler isod wybodaeth cyswllt defnyddiol ar gyfer y Tîm Dysgu a Datblygu.

Miriam Williams, Rheolwr Hyfforddiant - MiriamWilliams@ynysmon.gov.uk
Cherie Duffy, Swyddog Hyfforddiant - CherieDuffy@ynysmon.gov.uk
Siôn Mowbray, Swyddog Hyfforddiant Cynorthwyol - SionMowbray@ynysmon.gov.uk

This page is intentionally left blank